# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 8 GORFFENNAF 2020

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2020

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dave Cox

**YN ARSYLWI:**
Roedd y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg) yno yn arsylwi

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol; Arweinydd Tîm - Cynllunio; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 70. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Derek Butler gysylltiad personol a oedd yn rhagfarnu ag Eitem 6.2 (060784) ar y Rhaglen gan ei fod yn aelod o Fwrdd yr AHNE. Dywedodd y Cynghorydd Butler y byddai'n gadael y cyfarfod cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

## 71. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd a rannwyd yn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4713&Ver=4&LLL=1

## 72. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2020 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Ian Dunbar ac Owen Thomas eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**73. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Nid oedd dim eitemau wedi'u hargymell i'w gohirio.

**74. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi’r penderfyniadau fel y’i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

**75. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau’r cyfarfod roedd un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.12 pm a daeth i ben am 2.56 pm)

..................................................
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i’n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 8 GORFFENNAF 2020**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060321 | Cyngor Tref Treffynnon | Cais Llawn – codi byngalo ar wahân a garej ar wahân ar dir ger Uplands, Uplands, Ffordd Brynffordd, Treffynnon. | | Gwrthod caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad y swyddog oherwydd gwrthdaro â Pholisi HSG 4 a HSG 5 yn CDU Sir y Fflint |
| 060784 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais ar gyfer 5 pod glampio, yn cynnwys mynediad, parcio, storfa ar gyfer biniau a gwaith trin preifat cysylltiedig, yn Y Fron Farm, Mountain Road, Cilcain. | Siaradodd y Cynghorydd Owen Thomas, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |